# Comisiwn y Cynulliad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 2 Rhagfyr 2015** |
| Amser: | **12.00 – 12.45** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: AC(4)2015(14)

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Comisiwn: | **Y Fonesig Rosemary Butler AC (Cadeirydd)**<br>**Peter Black AC**<br>**Angela Burns AC**<br>**Sandy Mewies AC**<br>**Rhodri Glyn Thomas AC** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc**<br>**Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn**<br>**Anna Daniel, Pennaeth Trawsnewid Strategol**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd** |

## 1 Cyflwyniad

1.1 Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

1.2 Datganiad o fuddiant

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

1.3 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd.

## 2 Adolygiad o Gofnod y Trafodion - Adroddiad Cynnydd ac Argymhellion

Roedd Comisiynwyr wedi gofyn am adolygiad i archwilio cyfleoedd newydd ar gyfer dull y Comisiwn o ran adrodd am y trafodion. Roedd y Comisiwn wedi cael trosolwg o'r camau a gymerwyd hyd yn hyn.

Holodd y Comisiynwyr am yr amserlen ddisgwyliedig ar gyfer newidiadau a oedd yn cael eu hargymell, a pha mor fuan y byddai gwahanol agweddau yn cael eu darparu. Roedd ffocws y cynigion ar wneud y mwyaf o werth y Cofnod (sef y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau) drwy ei wneud yn fwy hygyrch, yn ail-ddefnyddiadwy ac yn chwiliadwy gan gynyddu'r defnydd ohono, a chan wneud prosesau mor effeithlon â phosibl tra'n cynnal ymddiriedaeth o ran ansawdd. Roedd gan y Comisiynwyr ddiddordeb arbennig mewn sut mae staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol i ateb y galw amrywiol.

Dangosodd y Comisiynwyr gefnogaeth hefyd i'r syniad o edrych ar y datrysiadau TG mwyaf cost effeithiol, gan gynnwys addasu systemau a ddefnyddir yn llwyddiannus eisoes mewn mannau eraill. Mynegwyd hefyd bwysigrwydd bod yn glir ynghylch statws y gwahanol gyhoeddiadau, er enghraifft fersiynau dros dro a fersiynau terfynol.

Cytunodd y Pwyllgor i:

- gyhoeddi drafft Cofnod y Trafodion yn gynharach (a hynny'n weithredol o'r Pumed Cynulliad);
- symud cyhoeddi y fersiwn cwbl ddwyieithog ymlaen, a hynny'n weithredol o'r Pumed Cynulliad, ac archwilio opsiynau'r farchnad ar gyfer darparu hyn; ac
- archwilio ateb TG newydd yn fwy manwl.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar gan y Pwyllgor Archwilio 16/11/15

Roedd Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Comisiwn y Cynulliad wedi cyfarfod ar 16 November. Rhoddwyd diweddariad i'r Comisiynwyr.

Cyflwynwyd adroddiadau i'r Pwyllgor ar Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Sicrhau Ansawdd Archwilio/DPP, ac roeddent wedi cydnabod cryfder gwaith y Comisiwn ar ymgysylltu gan bwysleisio pa mor bwysig ydyw i lwyddiant y Cynulliad. Roedd aelodau'r pwyllgor hefyd wedi ystyried cynllun Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2015-16.

## 4 Unrhyw fater arall

Ni chodwyd unrhyw fater arall.